Dyddiadau cofrestru 2019

Dyddiadau cyhoeddi hysbysiadau newid misol y gofrestr etholiadol[1]

Hysbysiad newid[i]	Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau [ii]	Dyddiad cau ar gyfer penderfynu [iii]
Dydd Mercher 2 Ionawr 2019	Dydd Mawrth 11 Rhagfyr 2018	Dydd Mercher 19 Rhagfyr 2018
Dydd Gwener 1 Chwefror 2019	Dydd Iau 10 Ionawr 2019	Dydd Gwener 18 Ionawr 2019
Dydd Gwener 1 Mawrth 2019	Dydd Iau 7 Chwefror 2019	Dydd Gwener 15 Chwefror 2019
Dydd Llun 1 Ebrill 2019	Dydd Gwener 8 Mawrth 2019	Dydd Llun 18 Mawrth 2019
Dydd Mercher 1 Mai 2019	Dydd Mawrth 9 Ebrill 2019	Dydd Mercher 17 Ebrill 2019
Dydd Llun 3 Mehefin 2019	Dydd Gwener 10 Mai 2019	Dydd Llun 20 Mai 2019
Dydd Llun 1 Gorffennaf 2019	Dydd Gwener 7 Mehefin 2019	Dydd Llun 20 Mehefin 2019
Dydd Iau 1 Awst 2019	Dydd Mercher 10 Gorffennaf 2019	Dydd Iau 18 Gorffennaf 2019
Dydd Llun 2 Medi 2019	Dydd Gwener 9 Awst 2019	Dydd Llun 19 Awst 2019

[1] Rhaid i chi gyhoeddi hysbysiadau newid misol ar ddiwrnod gwaith cyntaf y mis sy'n dilyn y mis lle rydych wedi penderfynu gwneud newid i'r gofrestr, oni bai bod y diwrnod gwaith cyntaf yn llai na 14 diwrnod calendr ar ôl y dyddiad penderfynu (os felly rhaid gwneud y newid ar ddiwrnod gwaith cyntaf y mis canlynol). Fodd bynnag, ni chewch gyhoeddi hysbysiad newid misol yn y mis rydych yn cyhoeddi'r gofrestr ddiwygiedig ynddo nac yn y ddau fis blaenorol; yn hytrach rhaid i'r newid gael ei wneud yn y gofrestr ddiwygiedig.

Dyddiad cyhoeddi'r gofrestr wedi'i golygu[2]

Dyddiad cyhoeddi	Dyddiad cau i etholwyr presennol newid eu statws optio allan[3]
Dydd Mercher 2 Ionawr 2019	Dydd Mercher 19 Rhagfyr 2018
Dydd Gwener 1 Chwefror 2019	Dydd Gwener 18 Ionawr 2019
Dydd Gwener 1 Mawrth 2019	Dydd Gwener 15 Chwefror 2019
Dydd Llun 1 Ebrill 2019	Dydd Llun 18 Mawrth 2019
Dydd Mercher 1 Mai 2019	Dydd Mercher 17 Ebrill 2019
Dydd Llun 3 Mehefin 2019	Dydd Llun 20 Mai 2019
Dydd Llun 1 Gorffennaf 2019	Dydd Iau 17 Mehefin 2019
Dydd Iau 1 Awst 2019	Dydd Iau 18 Gorffennaf 2019
Dydd Llun 2 Medi 2019	Dydd Llun 19 Awst 2019
Dydd Mawrth 1 Hydref 2019	Dydd Mawrth 17 Medi 2019
Dydd Gwener 1 Tachwedd 2019	Dydd Gwener 18 Hydref 2019

[2]Rhaid i chi gyhoeddi fersiwn ddiwygiedig o'r gofrestr wedi'i golygu ar ddiwrnod gwaith cyntaf y mis sy'n dilyn y dyddiad y ceir cais yn ymwneud â statws optio i mewn neu allan neu, os yw diwrnod cyntaf y mis yn llai na 14 diwrnod ar ôl y dyddiad y ceir y cais, ar ddiwrnod cyntaf y mis yn syth wedi'r mis hwnnw. Pan gaiff y gofrestr ddiwygiedig lawn ei chyhoeddi, rhaid i chi hefyd gyhoeddi fersiwn newydd o'r gofrestr wedi'i golygu. Yn wahanol i hysbysiadau ynghylch newid y gofrestr lawn, mae'n ofynnol i chi gyhoeddi fersiwn ddiweddar gwbl integredig o'r gofrestr wedi'i golygu yn hytrach na dim ond hysbysiad sy'n amlinellu'r newidiadau. Rhaid i'r gofrestr ddiwygiedig wedi'i golygu fod ar gael i'r cyhoedd ei harchwilio. Rhaid bod y copi ar gael yn eich swyddfa a hefyd mewn unrhyw ffordd briodol arall yn eich barn chi.

[3] Er y gellir gwneud cais i optio mewn neu allan o'r gofrestr wedi'i golygu ar unrhyw adeg, rhaid ei gael o leiaf 14 diwrnod calendr cyn cyhoeddi er mwyn ei gynnwys yn y fersiwn nesaf: os na wneir hyn, caiff ei gynnwys yn y fersiwn a gyhoeddir y mis canlynol.

Hysbysiadau newid etholiad: dyddiadau cyhoeddi yng Nghymru a Lloegr ar gyfer etholiadau lleol[4] ar 2 Mai 2019

	Cyhoeddi hysbysiad	Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau	Dyddiad cau ar gyfer penderfynu
Hysbysiad newid etholiad interim cyntaf	Dydd Mercher 3 Ebrill 2019	Dydd Llun 25 Mawrth 2019	Dydd Mawrth 2 Ebrill 2019
Ail hysbysiad newid etholiad interim	Rhwng dydd Iau 4 Ebrill a dydd Mercher 24 Ebrill 2019(gan gynnwys y dyddiadau hynny)	6 diwrnod gwaith cyn y dyddiad cau ar gyfer penderfynu	Y diwrnod gwaith cyn y dyddiad cyhoeddi
Hysbysiad newid etholiad terfynol	Dydd Iau 25 Ebrill 2019	Dydd Gwener 12 Ebrill 2019	Dydd Mercher 24 Ebrill 2019

[i] Y rhain yw'r diwrnodau pan fo'n rhaid cyhoeddi hysbysiadau newid misol, gan dybio bod angen gwneud newidiadau. Adran 13A(1), (2) a (3) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983. Y rhain yw'r 'diwrnodau gwaith' cyntaf oherwydd adran 13A(6) a 119. Dim ond gwyliau banc Cymru a Lloegr sy'n berthnasol at ddibenion dyddiadau yng Nghymru a Lloegr oherwydd adran 119(3). Dim ond gwyliau banc yr Alban sy'n berthnasol i'r Alban.

[ii] Cyfrifir y dyddiad olaf ar gyfer ceisiadau drwy adael pum diwrnod gwaith clir cyn y dyddiad cau ar gyfer penderfynu ar wrthwynebiadau i gofrestru (yn y bôn chwe diwrnod gwaith cyn y dyddiad cau ar gyfer penderfynu yw hyn). Y rheswm dros hyn yw bod rheoliad 29(4) o Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001 yn darparu ar gyfer pum diwrnod gwaith clir ar gyfer gwrthwynebiadau, gan ddechrau'r diwrnod ar ôl y diwrnod y caiff y cais ei gynnwys yn y rhestr o geisiadau. Dim ond ar ôl i'r pum diwrnod gwaith clir hynny basio y gellir gwneud penderfyniad. Mae'r rhain yn 'ddiwrnodau gwaith' oherwydd rheoliad 8(2).

[iii] Y dyddiad cau ar gyfer gwneud penderfyniadau yw 14 diwrnod calendr cyn diwrnod gwaith cyntaf y mis. Y rheswm dros hyn yw bod adran 13A(2) yn darparu bod yn rhaid i'r hysbysiad gael ei gyhoeddi ar ddiwrnod cyntaf y mis sy'n dilyn yr amser perthnasol (h.y. y penderfyniad) neu os yw'r diwrnod hwnnw yn llai na 14 diwrnod ar ôl yr amser hwnnw, ar ddiwrnod cyntaf y mis yn dilyn y mis hwnnw.

Noder: nid yw'n ddigon ond cael y cais cyn y dyddiad cau 14 diwrnod. Rhaid i ddyddiad y cais fod pum diwrnod gwaith cyn y dyddiad cau ar gyfer gwneud penderfyniadau (sy'n gorfod bod 14 diwrnod calendr cyn diwrnod gwaith cyntaf y mis) am na ellir ychwanegu'r cais at y rhestr o geisiadau i ychwanegu at y newid nes y penderfynir arno - adran 13A(1).

[4] Mae'r amserlen hon yn cwmpasu'r etholiadau canlynol sy'n cael eu cynnal ar 4 Mai 2017: etholiadau prif ardal llywodraeth leol (h.y. etholiadau dosbarth, bwrdeistref, bwrdeistref sirol ac awdurdod unedol); etholiadau cynghorau plwyf a chymuned; etholiadau maerol awdurdod lleol yn Lloegr; etholiadau maerol awdurdod cyfunol yn Lloegr.